Annwyl Aelod

# CYFRIFON YR UNDEB AM 2023

Yn unol ag Adran 32A o'r Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cyfnerthiad) 1992 a chyfarwyddiadau Swyddog Cofrestru Undebau Llafur y mae'n ofynnol i UCAC eich hysbysu o'r manylion isod. Dyma grynodeb o gyfrifon UCAC am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023. Os hoffech weld copi llawn, mae croeso i unrhyw aelod o UCAC gael copi electroneg o'r cyfrifon.

## 1. Cyfanswm Derbyniadau, Cyfanswm Tâl Aelodaeth a Chyfanswm Taliadau

| | £ | £ | £ |
|---|---|---|---|
| **INCWM:** | | | |
| Tâl Aelodaeth a dderbyniwyd | | 621,468 | |
| Buddsoddiadau | | 6,310 | |
| Incwm amrywiol | | 1,544 | |
| Symudiad ar werth y buddsoddiadau | | 8,783 | |
| **INCWM: CYFANSWM** | | | **638,105** |
| **GWARIANT:** | | | |
| Gorbenion | (664,215) | | |
| Treth | (1,199) | | |
| Symudiad ar werth y buddsoddiadau | - | | |
| **GWARIANT: CYFANSWM** | | | **(665,414)** |
| **DIFFYG AM Y FLWYDDYN** | | | **(27,309)** |
| Trosglwyddiadau allan o'r Cronfeydd Penodol | | | 16,819 |
| **DIFFYG YN Y GRONFA GYFFREDINOL AM Y FLWYDDYN AR ÔL TROSGLWYDDIADAU** | | | **(10,490)** |

**ASEDION:**
Cyfanswm Asedion Net UCAC ar 31 Rhagfyr 2023 oedd £1,005,718.
Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys Asedion cyfredol o £280,427.

**2. Cyflog a Buddiannau'r Ysgrifenyddion Cyffredinol UCAC** hyd at 31 Rhagfyr 2023 oedd:

Cyflog: £55,158
Buddiannau: £5,013

/trosodd...

**3. Talwyd yr Honoraria canlynol:**

| | |
|---|---|
| Trysorydd Cenedlaethol | Dim |
| Aelod o’r Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyflogaeth | Dim |

**4. Adroddiad yr Archwilwyr i Aelodau UCAC**

*Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol UCAC am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023 sef y cyfrif incwm a gwariant a’r fantolen yn ogystal â’r nodiadau perthnasol. Mae’r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â’r polisïau cyfrifo sydd yn y nodiadau a gofynion Safonau Cyfrifo’r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys Safon ar Adroddiadau Ariannol 102, adran 1A “Y Safon ar Adroddiadau Ariannol sy’n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon”.*

*Ein barn ar y datganiadau ariannol*

*Yn ein barn ni, mae’r datganiadau ariannol:-*

- *Yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Undeb ar 31 Rhagfyr 2023 ac o’i ddiffyg am y flwyddyn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw.*
- *Wedi eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.*
- *Wedi eu paratoi yn unol â Deddf Undebau Llafur a Pherthnasau Diwydiannol (Cydgyfnerthu) 1992.*

Llŷr James
25 Stryd y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

**5. Datganiad i Aelodau**

*“Gall aelod sy’n bryderus y gallasai peth anghysondeb fod yn cymryd lle, neu wedi cymryd lle, yng ngweinyddiad materion ariannol yr Undeb, gymryd camau gyda’r bwriad o ymchwilio ymhellach, cael eglurhad ac, os yn angenrheidiol, sicrhau rheoleiddio’r gweinyddiad hwnnw.*

*Gall yr aelod godi unrhyw bryder felly gydag un neu fwy o’r canlynol fel yr ymddengys yn briodol i wneud: Swyddogion yr Undeb, Ymddiriedolwyr Eiddo’r Undeb, Archwilydd yr Undeb, y Swyddog Gofrestru (sydd yn swyddog annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol) a’r heddlu.*

*Lle cred aelod bod materion ariannol yr Undeb wedi, neu yn, cael eu gweinyddu yn groes i’r gyfraith neu yn groes i reolau’r Undeb ac ystyria ddwyn achosion sifil yn erbyn yr Undeb neu’r Swyddogion neu’r Ymddiriedolwyr cyfrifol, dylai ystyried cael barn gyfreithiol annibynnol.”*

**6. Rheolau’r Undeb, Rheol 22 – Arolygu Llyfrau**

*Gall aelod neu aelodau â budd yng nghronfeydd yr Undeb arolygu’r llyfrau ac enwau aelodau yn y Swyddfa Gofrestredig ar unrhyw awr resymol ar roddi rhybudd ysgrifenedig ddeuddeg awr a thrigain ymlaen llaw i’r Ysgrifennydd Cyffredinol.*

Yn ddiffuant,

Ioan Rhys Jones
Ysgrifennydd Cyffredinol

Huw Chambers
Trysorydd Cenedlaethol